# CADW ANIFEILIAID ANWES YN SAFF AR NOSON TÂN GWYLLT



Mae noson Tân Gwyllt yn ddathliad ac yn hwyl gyda choelcerth, tân gwyllt a ffyn gwreichion, ond dydy'r holl deulu ddim yn eu mwynhau. Gall y sŵn a'r golau godi braw ar anifeiliaid anwes a da byw gan aflonyddu arnyn nhw a gall achosi damweiniau hyd yn oed.

***I gadw eich anifeiliaid yn saff:***

- Cadwch eich cathod a chŵn i mewn trwy gydol y dathliadau.
- Cerddwch eich cŵn yng ngolau dydd.
- Clowch eich cath(od) yn y tŷ.
- Ceisiwch osgoi gadael eich anifeiliaid ar eu pen eu hunain pan fo tân gwyllt yn cael eu tanio.
- Sicrhewch bod eich cŵn a'ch cathod yn gwisgo disg adnabod gweladwy. (Gall anifeiliaid geisio dianc os cant eu dychryn.)
- Drwy gydol y tân gwyllt, symudwch anifeiliaid anwes i un ystafell, caewch y llenni a throwch y teledu/radio ymlaen.
- Os ydych yn amau y caiff eich anifail anwes ei effeithio'n ddifrifol cysylltwch â'ch milfeddyg am gyngor pellach am dawelyddion a sedatif.
- Ceisiwch ddod ag anifeiliaid anwes sy'n cael eu cadw tu allan (cwningod ayyb) i mewn pan fydd dathliadau. Os ni ellir gwneud hyn, trowch y cytiau tuag at y wal, a gorchuddiwch gyda blanced.

Os ydych yn bwriadu cynnal tân gwyllt, ac os ydych yn byw mewn ardal wledig, rhybuddiwch eich cymdogion, fel y gallant symud eu da byw os oes angen. Wrth feddwl ymlaen llaw, ac ystyried anghenion eich anifeiliaid cyn y noson tân gwyllt, mae hi'n hawdd cymryd camau syml i gadw anifeiliaid anwes yn hapus a saff.

Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu , Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun.
LL15 1YN.
Rhif ffôn: (01824) 706086 / 706189 Ffacs: (01824) 706067
Ebost: iechydanifeiliaid@sirddinbych.gov.uk

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL